# YMCA Abertawe

**Mae YMCA Abertawe yn elusen annibynnol sy'n credu y 'dylai pawb gael cyfle teg i ddarganfod pwy ydynt a beth y gallant fod'. Mae'n cynnig darpariaeth ieuenctid a chymunedol effeithiol a chefnogol i blant a phobl ifanc rhwng 5 a 25 oed.**

Fe wnaethom ni (Estyn, yr arolygiaeth dros addysg a hyfforddiant yng Nghymru) arolygu YMCA Abertawe ym mis Mawrth/Ebrill 2025.

## Beth allwch chi ei ddisgwyl gan YMCA Abertawe:

- Mae gweithwyr ieuenctid yn frwdfrydig ac yn angerddol o ran helpu pobl ifanc i fagu eu hyder, eu hunan-barch a chyflawni eu nodau personol. Mae llawer o bobl ifanc, gyda chymorth YMCA Abertawe, yn trawsnewid eu bywydau ac yn cyflawni eu potensial unigol yn llwyddiannus.

Mae YMCA Abertawe yn cynnig cymorth arbenigol effeithiol i bobl ifanc, er enghraifft:

- Gwasanaeth Gofalwyr Ifanc Abertawe i helpu i gefnogi anghenion ymarferol ac emosiynol gofalwyr ifanc rhwng 8 a 18 oed. Mae hyn yn cynnwys cynlluniau fel y Cerdyn Gofalwyr Ifanc, sy'n nodi gofalwyr ifanc ac yn eu helpu i fanteisio ar gymorth mewn ysgolion, fferyllfeydd a meddygfeydd.
- Y Gwasanaeth Cymorth Ieuenctid LHDTC+ ar gyfer pobl ifanc rhwng 11 a 25 oed. Mae'n cefnogi gwahanol anghenion pobl ifanc yn llwyddiannus trwy glwb ieuenctid GoodVibes, sesiynau galw heibio a chymorth unigol.
- Mae Gwasanaeth Y-Hub yn canolbwyntio ar weithio yn y gymuned ac ar y strydoedd i ddiogelu pobl ifanc sydd mewn perygl o niwed neu gam-fanteisio. Mae'n cynnig sesiynau galw heibio bum niwrnod yr wythnos a chlwb ieuenctid sydd ar agor i bawb ar nosweithiau Gwener.
- Mae Y-Talent neu'r Gwasanaeth Cerddoriaeth a Chelfyddydau (a wnaed yn rhan o wasanaeth Y-Hub yn ddiweddar) yn cynnig cyfleoedd gwerthfawr i bobl ifanc ddatblygu medrau a hyder, ynghyd â dysgu i fynegi eu hunain trwy gerddoriaeth a chelf.
- Mae gan reolwyr weledigaeth glir ac maent yn dod o hyd i wahanol ffynonellau cyllid yn llwyddiannus. Maent yn cefnogi ac yn cydweithio'n effeithiol â gweithwyr ieuenctid i wella'r hyn sydd ar gael i bobl ifanc.

Sganiwch!

## Beth allai fod yn well:

- Gallai YMCA Abertawe wneud mwy i hybu a chynnig gwasanaethau yn y Gymraeg i bobl ifanc sy'n dewis defnyddio'r Gymraeg.

Estyn

Dros ddysgwyr, dros Gymru